

## CYPE(6)-04-23 - Papur i'w nodi 9

Lee Waters AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd  
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Jayne Bryant MS  
Cadeirydd,  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

20 Ionawr 2023

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2022 mewn perthynas ag adolygiad teithio i ddysgwyr.

Mae llawer wedi newid ers i Fesur Teithio i Ddysgwyr ddod i rym yn 2008. Bellach, mae cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cyfrif am chwarter holl wariant uniongyrchol yr awdurdodau lleol ar addysg - mae hyn yn gost gynyddol.

Yn ystod 2020, gwnaethom adolygiad o'r Mesur Teithio presennol i Ddysgwyr a oedd yn cynnwys casglu tystiolaeth gychwynnol. Canfuwyd gwendidau sylweddol yn y rhwydweithiau a'r seilwaith presennol sy'n gwneud gweithredu ehangiad o'r ddarpariaeth yn anodd. Roeddem yn gweld bod anghysondeb yn y ddarpariaeth ar draws Cymru gyfan.

Bu swyddogion yn cyfarfod â'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru yn yr hydref lle cawsant glywed yr adborth gan awdurdodau lleol ynglŷn â rhai o'r heriau sy'n eu hwynebu wrth sicrhau trafnidiaeth i ddysgwyr. Mae'r ddeialog hon yn parhau ac yn adeiladu ar y dystiolaeth a ystyriwyd gennym fel rhan o'r adolygiad cyntaf.

Yn ddiweddar mae swyddog wedi ei benodi i arwain ar yr adolygiad ehangach ar deithio i ddysgwyr. Ar hyn o bryd maen nhw'n cynllunio'r adolygiad ehangach a byddaf yn hapus i rannu manylion amserlen yr adolygiad hwnnw pan fydd ar gael.

Yn hytrach na newidiadau mân, mae'n rhaid dod o hyd i gynllun cynaliadwy hir dymor.

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyn, Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn, sy'n cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Bydd y bil arfaethedig yn cynnig cyfle i ni edrych o'r newydd ar ddarparu gwasanaethau bws ledled Cymru, gan gynnwys darpariaeth cludiant i'r ysgol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lee.Waters@gov.wales](mailto:Correspondence.Lee.Waters@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod ein nodau'n uchelgeisiol, bydd y diwygiadau hyn yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn cael yr hawl hon i gefnogi dysgwyr a'n rhaglen ddiwygio ehangach. Yn y cyfamser, byddwn ni'n parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol i annog cysondeb o ran dull gweithredu.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee', is centered within a light gray rectangular box.

**Lee Waters AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd  
Deputy Minister for Climate Change